Bu dydd Gwener, 18 Tachwedd yn un tra gwahanol i'r arfer yn yr ysgol. Gan ei bod yn ddiwrnod arbennig Plant Mewn Angen gwnaed ymdrech lew gan y plant i godi swm sylweddol tuag at yr achos teilwng yma. Yn ystod y bore cafwyd ymwelydd adnabyddus ym mherson Jeifin Jenkins o'r rhaglen deledu Hafoc. Yna yn y prynhawn cafodd y plant gyfle i anghofio am y gwersi arferol a threulio cyfnod yn chwarae gêmau bwrdd o bob math, ond nid cyn rhoi cyfraniad penodol i'r athro dosbarth tuag at yr apêl. Am hanner awr wedi dau cyflwynwyd drama fer, "Guto Nyth Brân" gan blant dosbarth 4 ac eto bu'n rhaid i bob un dalu cyn sicrhau sedd yn y gynulleidfa. Am dri o'r gloch croesawyd y rhieni i'n plith a chyfle i bawb brynu oddi ar yr amrywiol stondinau - llyfrau, teganau, cardiau a bisgedi. Erbyn pedwar o'r gloch roedd y byrddau'n wag a phawb yn fwy na bodlon. Drwy amrywiol ymdrechion y plant codwyd dros £180. Diolch yn fawr iawn i bawb.